# Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Gorffennaf 2021 Fersiwn 1.2

## Llawlyfr y Cymhwyster

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a gofal plant |
| **Rhif City & Guilds** | 8041 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Dim |
| **Asesu** | Amrywiaeth o dasgau i'w hasesu'n fewnol ac yn allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y Cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Ymrestru ac ardystio** | Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 8041-16 | C00/1249/8 |

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
| --- | --- | --- |
| 1.1 Ionawr 2021 | Rhif achredu wedi'i gywiro | Cipolwg ar y cymhwyster |
| 1.2 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |

# Cynnwys


Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 1

**Cipolwg ar y cymhwyster 2**

**Cynnwys 4**

**1 Cyflwyniad 6**

Nodau ac amcanion y pwnc 6

Strwythur 8

Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC) 9

**2 Gofynion canolfannau 10**

Cymeradwyo'r cymhwyster 10

Ymrestru ac ardystio 10

Staff canolfannau 10

Gofynion cofrestru dysgwyr 12

Cyfyngiadau oedran 12

**3 Cyflwyno'r cymhwyster 13**

Asesu cychwynnol a sefydlu 13

Canllawiau cyflwyno 13

Deunyddiau cefnogi 15

Swyddogion Cyswllt/penodedigion allanol 15

Trefniadau cymedroli asesu mewnol 17

Apêl fewnol 17

Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol 17

Camymddwyn 17

Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 18

**4 Asesu 20**

Crynodeb o ddulliau asesu 20

Cyfyngiadau amser 20

Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) 20

Dyfarnu'r cymhwyster 20

Cyfleoedd ailsefyll 21

**5 Unedau 22**

Argaeledd yr unedau 22

Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 23

**Uned 405 Arwain Ymarfer Plentyn-ganolog 25**

Canllawiau cyflwyno 28

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig 32

Deddfwriaeth gysylltiedig 32

Adnoddau 33

**Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli 35**

Canllawiau cyflwyno 37
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig 38
Deddfwriaeth gysylltiedig 38

**Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol 39**

Canllawiau cyflwyno 42
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig 46
Deddfwriaeth gysylltiedig 46

**Atodiad 1 Cysylltiadau â chymwysterau eraill 47**

Cysylltiadau â chymwysterau eraill 47

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymhwyster hwn:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Cymhwyster seiliedig ar wybodaeth yw hwn i ddysgwyr sydd wedi'u cyflogi yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cam tuag at Lefel 5 i ddysgwyr sydd am symud ymlaen i'r lefel honno.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer pobl sydd mewn swydd â thâl neu heb dâl neu sydd â mynediad at leoliad gwaith, mewn lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.<br><br>Lluniwyd y cymhwyster hwn er mwyn i ddysgwyr feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth allweddol sy'n sail i arwain a rheoli yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.<br><br>Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster hwn cyn ymgymryd â chymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Nod y cymhwyster hwn yw paratoi'r dysgwyr ar gyfer rôl reoli, drwy feithrin y wybodaeth ofynnol sy'n sail i arwain a rheoli yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn eu gwaith neu i ddysgu pellach drwy gymhwyster canlynol y Consortiwm*:<br><br>• Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer<br><br>***Mae'r Consortiwm yn cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC a gydweithiodd i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.** |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br><br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli;
- deall arddulliau arwain a rheoli gwahanol a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer mewn gwasanaethau.
- deall sut i arwain dulliau plentyn-ganolog wrth ymarfer;
- gallu gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;
- gwybod sut i arwain, rheoli a gwella gwasanaeth ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

## Strwythur

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o 60 credyd.

Rhaid ennill o leiaf **60** credyd o'r Grŵp Gorfodol.

**Lleiafswm** yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 335.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| Grŵp gorfodol | | | |
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog | 115 | 22 |
| 406 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli | 120 | 20 |
| 407 | Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 100 | 18 |

## Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno'r uned a gellir eu defnyddio at bwrpasau cynllunio.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir y CAC ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 600 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a chymwysterau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â chymhwysedd staff cyflwyno ac aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymhwyster hwn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu cofrestru ar Pro Platform i gefnogi’r elfen asesu allanol. Mae Pro Platform yn galluogi canolfannau i gofrestru ar sail ‘mewn ac allan’ hy gallwch gofrestru ar unrhyw amser ac mewn unrhyw niferoedd yn ystod y flwyddyn.

**Ni ddylid** cofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn ar Walled Garden.

Mae mynediad i Pro Platform yn cael ei ddarparu i ganolfannau ar ôl derbyn cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn. Mae canllawiau ar gael o dan y tab ‘Welsh Qualifications’ yn yr adran

'Support Materials' i ddarparu cymorth i ganolfannau cwblhau cofrestru, fesul dysgwyr unigol neu fesul grŵp.
Bydd dysgwyr yn cael eu tystysgrifo drwy Walled Garden.

## Staff canolfannau

### Gofynion aseswyr

### Gofynion aseswyr mewnol

Rhaid i aseswyr y cymhwyster hwn fod yn wybodus yn alwedigaethol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys yr uned y maent yn ei hasesu.
Hefyd, rhaid iddynt feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atynt:

- Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **ac yn**
- cynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau y maent yn eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddynt ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd fewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
  - Lefel 4 Dyfarniad mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu
  - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Mewnol mewn Prosesau Asesu ac Ymarfer neu
  - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster sicrhau ansawdd mewnol, dylai fod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd

mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig neu dylai feddu ar gymhwyster addysgu cydnabyddedig a phrofiad amlwg o wneud gwaith sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar wybodaeth.

**Y Cyd-destun Cymreig**

Awgrymir y byddai'n fuddiol i unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru, er mwyn eu cefnogi yn eu swyddi.

**Datblygiad proffesiynol parhaus**

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid yw'r Consortiwm yn pennu gofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw ymrestriadau ar gyfer dysgwyr dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gymorth ac arweiniad y gall fod eu hangen arno wrth weithio tuag at ei gymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau'n cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Byddai'n ddefnyddiol trafod â dysgwyr yr hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni drwy'r cymhwyster hwn; a byddai'n werth annog dysgwyr i gwblhau datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, gan eu cefnogi i ystyried eu nodau eu hunain o ran yr hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni drwy gwblhau'r rhaglen, a chanolbwyntio ar y rhain drwy gydol y broses gyflwyno.

Byddai'n fuddiol i ganolfannau ystyried yr ystod ehangach o sgiliau y gall fod eu hangen ar ddysgwyr o'r gweithle er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, e.e. cyflwyniad i ymchwil a sgiliau astudio. Bydd cyflwyniad i'r sgiliau hyn o fantais fawr er mwyn cefnogi dysgwyr drwy'r broses gyflwyno, tasgau asesu a sefydlu profiad dysgu wedi'i gyfoethogi.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r broses o gyflwyno'r cynnwys gorfodol fod yn seiliedig ar y syniad y bydd dysgwyr yn ymateb i wybodaeth a dealltwriaeth newydd os yw'n berthnasol i'w cyd-destun cyflogaeth presennol, neu i brofiad gwaith blaenorol yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Felly, wrth gyflwyno cynnwys Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 4, eich nod yw gwneud y canlynol:

- Cefnogi dysgwyr i ddwyn i gof yr hyn y maent eisoes yn ei wybod mewn perthynas â Deilliant Dysgu
- Cyflwyno cynnwys newydd
- Cefnogi dysgwyr i herio eu meddylfryd presennol yng ngoleuni'r cynnwys newydd hwn
- Cefnogi dysgwyr i gymhwyso'r ddealltwriaeth newydd hon at gyd-destun cyflogaeth
- Rhoi deunyddiau ychwanegol i ddysgwyr er mwyn atgyfnerthu eu dysgu

Gall sesiwn sy'n cyflwyno cynnwys yr uned gynnwys agweddau ar bob un o'r uchod. Er enghraifft, yn ystod sesiwn gallwch wneud y canlynol:

- cyflwyno prif destun y sesiwn
- hwyluso trafodaeth lle mae'r dysgwyr yn archwilio eu dealltwriaeth a/neu wybodaeth bresennol.

Dylai'r math hwn o sesiwn roi syniad i chi o ran sut y byddech yn mynd ati i gyflwyno'r cynnwys nesaf, h.y. os nad oes fawr ddim dealltwriaeth na gwybodaeth o ran y testun allweddol, yna byddai angen treulio mwy o amser yn sefydlu'r cysyniadau allweddol yn rhan nesaf y sesiwn.

Dylai'r sesiynau dilynol wedyn eich galluogi i wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar gyflwyno cynnwys y sesiwn a ddewiswyd
- cefnogi dysgwyr i gymhathu'r wybodaeth newydd y maent wedi'i dysgu i'w dealltwriaeth eu hunain o'r pwnc, ac yna i feysydd pwnc newydd

Rhaid i ddysgwyr gael eu cefnogi i naill ai gadarnhau neu herio eu dealltwriaeth bresennol. Bydd cwestiynau fel y rhai isod yn helpu dysgwyr i herio eu dealltwriaeth eu hunain:

- A fydden nhw'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?
- Pe baen nhw'n gallu newid un peth, beth fyddai hwnnw?
- A gawson nhw eu synnu gan unrhyw beth maen nhw wedi'i ddysgu?
- Beth maen nhw'n ei wybod nawr nad oedden nhw'n ei wybod o'r blaen?

**Cysylltu gwybodaeth a dealltwriaeth ag ymarfer**

Pan fydd dysgwyr wedi meithrin dealltwriaeth o'r prif bwnc ac wedi ei chymhwyso at eu dealltwriaeth eu hunain, gallan nhw ddechrau cysylltu hyn â chyd-destun penodol. Gall y cyd-destun hwn fod yn gyflogaeth bresennol y dysgwyr eu hunain neu'n astudiaeth achos niwtral a ddyfeisiwyd gan y tiwtor. (Bydd defnyddio cyd-destun ffuglennol yn aml yn gwneud y myfyrwyr yn llai amddiffynnol am eu lleoliad eu hunain). Mae'n bwysig deall bod y dysgwyr yn cymryd perchenogaeth am y wybodaeth y maent yn ei meithrin drwy ddeall ei pherthnasedd i ymarfer.

**Atgyfnerthu'r dysgu**

Yn olaf, yn aml mewn sesiwn gall y prif gynnwys gael ei gyflwyno ond bydd unrhyw gynildeb yn tueddu i gael ei golli. Gall rhoi deunyddiau i ddysgwyr er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth, er enghraifft gwefan berthnasol, erthygl mewn cyfnodolyn, pennod mewn llyfr ac ati gyflwyno lefel ychwanegol o her er mwyn atgyfnerthu eu dysgu ymhellach. Mae'r unedau'n cynnwys cysylltau ag amrywiaeth o adnoddau a chyflwyniadau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses gyflwyno, yn ogystal ag ategu datblygiad y dysgwr ei hun y tu hwnt i'r broses dan arweiniad o gyflwyno'r cynnwys.

Atgoffir cyflwynwyr eu hatgoffa y bydd gan bob dysgwr arddull ddysgu wahanol, ac mai canllaw yn unig yw'r dull cyflwyno uchod i'w helpu i ystyried y broses gyflwyno. Dylai cyflwynwyr hefyd ystyried yr amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a chefndiroedd y mae dysgwyr mewn carfan yn eu cynnig i sesiynau grŵp, a dylen nhw weld gwerth annog dysgwyr i archwilio'r themâu a'r pynciau gwahanol gyda'i gilydd, gan ddefnyddio eu cyfoeth o brofiadau o amrywiaeth o leoliadau i'w helpu i feithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth eu hunain.

**Trefn y broses gyflwyno**

Cynghorir canolfannau ei bod yn syniad cyflwyno cynnwys y cymhwyster hwn gan ddilyn trefn yr unedau a gyflwynir yn y llawlyfr hwn. Mae hyn yn adlewyrchu trefn resymegol y broses o gyflwyno'r cynnwys yn ogystal â threfn ddisgwyliedig y broses o gyflwyno'r tasgau asesu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion Cyswllt/penodedigion allanol

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft swyddogion sicrhau ansawdd allanol neu aseswyr allanol.

Mae gan y Consortiwm feini prawf er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai yn meddu ar y wybodaeth/profiad a'r sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.

Mae staff y Consortiwm yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodai. Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner Consortiwm yn cymryd camau cywirol a fyddai'n gallu cynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodai.

Bydd pob aseswr allanol yn mynd drwy'r hyfforddiant cychwynnol hwn ar y dull asesu. Bydd aseswyr allanol yn destun prosesau safoni a samplu arweiniol. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol gyda'r holl aseswyr.

Bydd aseswyr arweiniol yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau a darparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau asesu.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd yr holl swyddogion cyswllt/penodedigion yr ystyrir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a byddan nhw'n cael sesiwn friffio ar ddiogelu cyn ymweld â chanolfan.

### Gofynion aseswyr allanol

Rhaid i aseswyr y cymhwyster hwn fod yn wybodus yn alwedigaethol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys yr uned maen nhw'n ei hasesu.

Hefyd, rhaid iddyn nhw feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atyn nhw:

- Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **ac yn**
- cynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau maen nhw'n eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn golygu:

Bod y Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:

D35 - Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 - Lefel 4 Tystysgrif mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)

Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol.

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddant eisoes wedi'i ennill, neu byddant yn meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Y Cyd-destun Cymreig

Awgrymir y byddai'n fuddiol i unigolion nad ydyn nhw wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru, er mwyn eu cefnogi yn eu swyddi.

## Trefniadau cymedroli asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu sy'n cael eu gwneud gan staff canolfannau, fel sy'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu'n fewnol ac yn destun samplu a gwaith monitro seiliedig ar risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau asesu canolfannau yn gyson ac yn ddilys. Cyflawnir gweithgareddau sicrhau ansawdd gan swyddogion cyswllt asesu cymwys a hyfforddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Ym mhob achos o samplu'r asesiad mewnol at bwrpasau sicrhau ansawdd, rhoddir adborth ysgrifenedig ffurfiol gan City & Guilds.

Bydd y Consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw bryder a ddaw'n amlwg wrth fonitro'n allanol. O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, gellir gweithredu a/neu osod sancsiynau priodol. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadymrestru'r ganolfan neu'r canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses fonitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru

## Apêl fewnol

Dylai canolfannau fod wedi rhoi proses fewnol ar waith er mwyn i ddysgwyr apelio yn erbyn y ffordd mae asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau a asesir yn fewnol, gan y bydd angen y rhain arnyn nhw i benderfynu a ydyn nhw am apelio ai peidio.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli’r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen y CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae’r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff

canolfannau i roi gwybod am achosion o gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau gael gafael ar y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i ymgymryd â'r asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i fodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration (Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig* - yn Gymraeg ar wefan CBAC) y Cyd-gyngor Cymwysterau ac *Access arrangements – when and how applications need to be made to City & Guilds*, am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

### Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen y CGC, *A guide to the special consideration*

*process (Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* – yn Gymraeg ar wefan CBAC). Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds: **http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**
**access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4 Asesu

## Crynodeb o ddulliau asesu

Ar gyfer yr asesiad allanol rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- Project sy'n cynnwys cyfres o dasgau, yn seiliedig ar newid arfaethedig i ymarfer

Ar gyfer yr asesiad mewnol, rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- Cyfres o dasgau, sy'n cynnwys ymatebion llafar ac ysgrifenedig

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion pob asesiad o wefan y Consortiwm.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned a chwblhau ac asesu gofynion cysylltiedig o fewn cyfnod ymrestru'r dysgwr.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Caniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am gydnabod dysgu blaenorol a pholisi'r Consortiwm mewn perthynas â hyn, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Asesir y cymhwyster drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol.

Asesir **Adran 1** (Tasgau A – B) gan aseswr allanol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir **Adran 2** (Tasgau C – Ch) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir **Adran 3** (Tasgau D – E) ei hasesu'n fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

Gweler y pecyn asesu am ragor o fanylion.

## Cyfleoedd ailsefyll

Nid oes cyfyngiad ar sawl tro y gall dysgwyr ailgyflwyno/ailsefyll tasgau a fethwyd ganddyn nhw yn y cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am ganllawiau ar y cyfleoedd ailsefyll sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiadau, ac am ganllawiau ar y camau i'w cymryd pan fydd ymgeisydd yn methu wrth gwblhau unrhyw elfen o'r asesiad.

## Rolau

Bydd y rolau canlynol yn ymwneud â'r gwaith o asesu'r cymhwyster hwn.

**Tiwtor** – yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor gefnogi mynediad at yr asesiad ond ni fydd yn gyfrifol am unrhyw farnau asesu terfynol.

**Aseswr mewnol**[1] – aseswr cymwysedig. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am bennu canlyniad asesu'r tasgau yn Adran 2 ac Adran 3 gan ddefnyddio meini prawf llwyddo a osodwyd yn allanol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – yn sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol** – yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cynnal ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds.

**Aseswr Allanol City & Guilds**[2] – aseswr cymwysedig, a benodwyd gan City & Guilds, sy'n gyfrifol am bennu'r farn asesu derfynol ar gyfer tasgau asesu Adran 1, sy'n ymdrin ag uned 405.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds** – bydd yn gyfrifol am samplu a safoni
barn asesu aseswyr allanol.

[1] I gadarnhau gofynion asesu mewnol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Gofynion Canolfannau'** yn y Llawlyfr Cymhwyster hwn

[2] I gadarnhau gofynion asesu allanol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Cyflwyno'r Cymhwyster'** yn y Llawlyfr hwn

# 5 Unedau

## Argaeledd yr unedau

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn;

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned |
|---|---|
| 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog |
| 406 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli |
| 407 | Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol |

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys yr unedau ac sy'n berchen arno.

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

### Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned yn ymdrin â'r wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

### Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio darnau o wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud yn dilyn yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

### Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn testun **trwm**.

### Amrediad

Bydd rhai geiriau neu ymadroddion yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned.**

Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi'n benodol ar holl elfennau'r amrediad fel rhan o'r broses asesu; gan adlewyrchu'r ffaith mai barn gyfannol yw'r farn asesu, a'i bod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu.

### Canllawiau cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle y bo hynny'n berthnasol.

Mae'r canllawiau cyflwyno'n cynnig canllawiau pellach ar **amcanion thema** cyffredinol pob deilliant dysgu. Mae'r amcanion thema hyn yn manylu ar y meysydd allweddol y dylid ymdrin â nhw wrth gyflwyno cynnwys y deilliant dysgu. Hefyd, ategir y meini prawf asesu gan ganllawiau ar destunau allweddol y dylid ymdrin â nhw – gan ehangu ymhellach ar ddyfnder ac ehangder y cynnwys y mae angen ei gyflwyno.

Lle y bo'n berthnasol, mae'r canllawiau cyflwyno hefyd yn cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned, yn yr adran **geirfa**.

**Adnoddau**

Rhoddwyd canllawiau ar amrywiaeth o adnoddau sy'n addas i gefnogi'r broses o gyflwyno'r unedau. O ran adnoddau penodol a ddyfynnir, gellir llwytho'r rhain i lawr i'w defnyddio o wefan y consortiwm.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos lle y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

**Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

**Gwerth credyd**

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

# Uned 405 Arwain Ymarfer Plentyn-ganolog

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 115 |
| **Credyd:** | 22 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i arwain ymarfer plentyn-ganolog.<br>At bwrpas yr uned hon mae "Arweinydd" yn cyfeirio at y rheini â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, yn gweithio'n ymreolus o fewn protocolau cytûn. Gall hyn fod ar gyfer pobl sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall datblygiad dulliau seiliedig ar hawliau a sut mae'r rhain yn parhau i ddatblygu ac yn dylanwadu ar ymarfer plentyn-ganolog

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y ffordd y mae dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer plant:

- wedi datblygu dros amser
- yn rhan annatod o gonfensiynau, deddfwriaeth, fframweithiau rheoleiddio a Pholisi Llywodraeth Cymru

1.2 Llywio ymarfer lleol a dylanwadu arno

## Deilliant dysgu:

2. Deall sut i hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Deddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2.2 Y ffordd y mae ymddygiadau a gwerthoedd yn y gweithle/lleoliad yn hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2.3 Effaith gwahaniaethu, stereoteipio, rhagfarn ac anghydbwysedd o ran pŵer ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Deilliant dysgu:

3. Deall effaith y Gymraeg a'i diwylliant ar eich gweithle/lleoliad

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Deddfwriaeth, Polisi Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg a sut mae'r rhain yn ymwneud â hawliau plant

3.2 Ffyrdd a dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i hybu ac annog defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gweithle/mewn lleoliadau

Deilliant dysgu:

4. Deall atal ac ymyrryd yn gynnar

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar

4.2 Modelau a dulliau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar

4.3 Pwysigrwydd sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynegi eu teimladau, eu barn a'u dewisiadau o ran 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw

Deilliant dysgu:

5. Deall effaith diogelu ar eich gweithle/lleoliad

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Cyfrifoldebau gweithle/lleoliad mewn perthynas â diogelu plant

5.2 Gofynion rheoleiddio ar gyfer diogelu

5.3 Rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Diogelu Dynodedig mewn lleoliad

5.4 Ymarfer/adolygiadau o achosion difrifol sy'n ymwneud â phlant a'u heffaith ar ymarfer

5.5 Rolau a chyfrifoldebau tîm amlasiantaethol mewn perthynas ag amddiffyn plant

5.6 Rolau a chyfrifoldebau mewn amrywiaeth o gyfarfodydd diogelu

5.7 Sut i arwain amgylchedd sy'n hybu diogelu

5.8 Sut mae polisi ac ymarfer yn cefnogi ac yn hybu diogelu

Deilliant dysgu:

6. Gwybod sut mae damcaniaethau a modelau yn cefnogi'r ddealltwriaeth o ddatblygiad plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Y rhyng-gysylltiad rhwng ffactorau biolegol, seicolegol ac amgylcheddol-gymdeithasol a'u perthynas â datblygiad plant.
6.2 Sut mae damcaniaethau a modelau yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cael eu llywio gan ffactorau biolegol, seicolegol ac amgylcheddol-gymdeithasol.

# Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Anogir dysgwyr i fyfyrio ar eu gweithle/lleoliad gwaith eu hunain a chyfeirio ato yn ystod y broses o gyflwyno cynnwys yr uned hon.

| Cynnwys | Ymhelaethiad/Canllawiau |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Cyfrifoldebau rheolwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer ar lefelau lleol a chenedlaethol<br>• Sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i ddeddfwriaeth a pholisi o'r fath a sut mae hyn wedi effeithio ar ymarfer yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol<br>• Sut mae dulliau rheoleiddio ac arolygu wedi cael eu haddasu er mwyn bod yn blentyn-ganolog gyda phwyslais penodol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Ffynonellau gwybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth hawliau dynol a Chonfensiynau ac Egwyddorion hawliau y Cenhedloedd Unedig<br>• Bwriad deddfwriaeth hawliau dynol, Confensiynau ac Egwyddorion yng nghyd-destun gofal plant<br>• Sut mae deddfwriaeth hawliau dynol, Confensiynau ac Egwyddorion yn cefnogi ymarfer plentyn-ganolog<br>• Cysylltiadau rhwng fframweithiau rheoleiddio (AGC, ESTYN ac AGIC) a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Sut mae gwerthoedd sy'n seiliedig ar hawliau yn cyfrannu at ymarfer plentyn-ganolog<br>• Pam mae'r ddeddfwriaeth a'r safonau'n berthnasol i hawliau'r plentyn<br>• Yr ymddygiadau a'r gwerthoedd mae'r ddeddfwriaeth a'r safonau yn eu disgwyl gan y rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant<br>• Sut mae'r ymddygiadau hyn yn cefnogi arweinwyr, rheolwyr a gweithwyr i roi ymarfer plentyn-ganolog ar waith |
| | **Adnoddau:**<br><br>Rhaglen ar gyfer plant a phobl ifanc:<br>**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/saith-nod-craidd-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc.pdf**<br><br>**<u>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed</u>** |

| | |
|---|---|
| | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: **https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.262879820.1757423407.1559037849-1521238580.1559037849** |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Deall sut mae anfantais ac allgáu yn gallu effeithio ar degwch gwasanaethau<br>• Sut mae polisïau a gweithdrefnau mewn lleoliadau yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Termau allweddol megis tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a gwahaniaethu.<br>• Sut mae tegwch yn effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau'r plentyn.<br>• Ethos deddfwriaethau a chonfensiynau (Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006, Canllawiau Fraser 1985) a sut mae'r rhain yn ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Cysylltiadau rhwng deddfwriaeth hawliau dynol a Chonfensiynau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer hawliau a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Cysylltiadau rhwng fframweithiau rheoleiddio (AGC, ESTYN ac AGIC) a thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Yr hyn y mae angen ei ystyried yn y gweithle/lleoliad er mwyn hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys: y Gymraeg/yr iaith ddewisol, diwylliant, crefydd, lleoliad daearyddol a mynediad at wasanaethau, anghenion ychwanegol<br>• Yr effaith y gall stereoteipiau, rhagfarn, gwahaniaethu a throseddau casineb ei chael ar lesiant plant sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal plant<br>• Cysylltiadau â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol |
| | **Adnoddau:**<br>• Sefydliad Hawliau Dynol Prydain<br>• Gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: What are human rights?<br>• Comisiynydd Plant Cymru (2017)<br>• UNCRC – Hawliau Plant: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>• Inequalities in Health: Adroddiad Black |

| | |
|---|---|
| | • Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015) Eich hawl i gydraddoldeb gan wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol, tt 5-27; tt 35-53; geirfa tt 73-78, gan gynnwys y termau canlynol:<br>- Polisi cydraddoldeb<br>- Hyfforddiant ar gydraddoldeb<br>- Gwahaniaethu uniongyrchol<br>- Gwrthwahaniaethu anuniongyrchol<br>- Nodweddion gwarchodedig |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>• Hybu a chodi ymwybyddiaeth o ofynion o ran y Gymraeg a'i diwylliant mewn lleoliadau gofal plant<br>• Effaith y Gymraeg a'i diwylliant ar ddatblygiad plant |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Safonau'r Gymraeg 2016<br>• Fframwaith 'Mwy na geiriau' a'r 'Cynnig Rhagweithiol'<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr<br>• Sut mae dewis iaith yn ymwneud â hawliau'r plentyn, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Arferion gorau mewn perthynas â darpariaeth ddwyieithog (sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio mewn arddangosfeydd a gweithgareddau dyddiol ac wrth gyfathrebu)<br>• Dulliau ar gyfer trochi ieithyddol |
| | **Adnoddau:**<br><br>• Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg tt 4 – 13<br>• Fideo YouTube Mwy na geiriau / More than just words –<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru: Gweithio yn Gymraeg – adnoddau<br>• Mudiad Meithrin: **https://www.meithrin.cymru/cychwyngorau/**<br>• Safonau'r Gymraeg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus |
| DD4 | **Amcanion thema:**<br>• Deddfwriaeth, polisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Strategaethau a modelau atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Damcaniaethau a dulliau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Prosesau ataliol<br>• Llais y plentyn |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Modelau a dulliau gweithredu ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar i gynnwys: |

| | |
|---|---|
| | - Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf<br>- Plant Iach Cymru<br>- Dechrau'n Deg<br>- Tîm o Amgylch y Teulu<br>- Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc: Fframwaith Gweithredu 2015<br>- 'Rhianta Cadarnhaol'<br>• Pwysigrwydd sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cyfranogi |
| | **Adnoddau:**<br>Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:<br>**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88524**<br>Atal a llesiant y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth:<br>**https://www.scie.org.uk/prevention/**<br>Family action, Grasping the nettle: **https://www.family-action.org.uk/content/uploads/2014/07/Early-Intervention-Grasping-the-Nettle-Full-Report.pdf**<br><br>Adnoddau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru: **https://llyw.cymru/cymorth-i-rieni-gan-dechraun-deg-canllawiau** |
| DD5 | **Amcanion thema:**<br>• Rôl y sefydliad a'r swyddog diogelu dynodedig mewn perthynas â chadw plant yn ddiogel.<br>• Y rôl y gall gweithwyr ei chael o ran rhannu gwybodaeth ag eraill a mynychu cyfarfodydd diogelu.<br>• Pwysigrwydd cydweithio ag eraill.<br>• Sut mae'r amgylchedd yn gallu amddiffyn plant.<br><br>**Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Enghreifftiau o unigolion yn cael eu cam-drin o ganlyniad i fethiant sefydliad i'w diogelu e.e. Daniel Pelka, Baby P, Victoria Climbié, Child BR, Child N, Katie<br>• Sut mae adolygiadau o achosion difrifol, megis Daniel Pelka, Baby P, Victoria Climbié, wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer.<br>• Adnoddau ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu |
| | **Adnoddau:**<br>• NSPCC – adolygiadau achos cyhoeddedig: **https://learning.nspcc.org.uk/case-reviews/recently-published-case-reviews/**<br>• Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru: Astudiaethau achos http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews<br>• Adolygiadau thematig byrddau diogelu lleol<br>• Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Gofal Cymdeithasol Cymru<br>• Adroddiad yr Adran Iechyd (2000) Ar Goll mewn Gofal<br>• Gwefan Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan Plant yng Nghymru (2014) |

| | |
|---|---|
| | • Torri'r Cylch (2017) Llywodraeth Cymru<br>• Gwefan Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru: ffilm Ymgyrch Thistle (2012) sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant<br>• Fideo SCIE: Diogelu plant: dull newydd wrth ymdrin ag adolygiadau o achosion<br>• Fideo SCIE: Gweithio mewn partneriaeth ym maes amddiffyn plant |
| DD6 | **Amcanion thema:**<br>• Cyflwyniad i ddamcaniaethau mewn perthynas ag effaith fiolegol, amgylcheddol-gymdeithasol a seicolegol ar ddatblygiad plant.<br>• Cyflwyniad i'r model bioseicogymdeithasol<br>• Dylanwad y model bioseicogymdeithasol ar ymarfer person-ganolog/plentyn-ganolog<br>• Sut mae ffactorau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol yn effeithio ar fywydau plant ac esbonio effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. |
| | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Cyflwyniad i sut mae damcaniaethau a modelau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol yn ein helpu i ddeall datblygiad cyfannol plant.<br>• Sut mae'r model bioseicogymdeithasol yn ein helpu i ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith ar blant drwy gydol eu hoes. |
| | **Adnoddau:**<br>Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:<br>**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88524** |

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hybu llesiant unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd
- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli systemau ac ymarfer cyfathrebu effeithiol

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)
- Deddf Plant 1989 a (2004)
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 2017 Llywodraeth Cymru
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Deddf Diogelu Data (1998)
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Hawliau Dynol (1998)

- Strategaeth PREVENT (2015)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) (2017)
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant (2004)

## *Adnoddau*

- Arolygiaeth Gofal Cymru – https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau
- ESTYN –
- Adolygiad thematig – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig**
- Adroddiadau blynyddol – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol**
- Canllaw arolygu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir – **https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/llawlyfr-arweiniad-ar-gyfer-arolygu-addysg-gofal-mewn-lleoliadau-reoleiddir-heblaw-ysgolion**
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- https://agic.org.uk/ein-hadroddiadau
- Cyhoeddiadau Comisiynydd Plant Cymru
- https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/
- Cymru Ifanc
- http://www.cymruifanc.cymru/
- Hawliau a Chyfranogiad Plant
- https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/Childrens_participation_in_decision-making_-_survey_of_participation_workers.pdf
- Chwarae Cymru
- https://chwaraecymru.org.uk
- Y Saith Nod Craidd
- **https://gweddill.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/implementation-of-childrens-rights/index1b1b.html?force=cy**
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed. **https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**
- Llywodraeth Cymru:
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
- https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cynllun-gweithlu-r-blynyddoedd-cynnar.pdf

- Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/deilliannau-r-blynyddoedd-cynnar-fframwaith.pdf
- Damcaniaeth trosglwyddo
- **www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/BvLF-ECD-WP48-Vogler-Early-Childhood-Transitions.pdf**
- Canllawiau NICE ar gyfer plant a phobl ifanc
- **https://www.nice.org.uk/guidance/population-groups/children-and-young-people/products?ProductType=Guidance&Status=Published**

# Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 120 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o fframweithiau damcaniaethol a deall sut gellir defnyddio'r fframweithiau hyn er mwyn cefnogi arloesedd, newid a gwella ansawdd o fewn prosesau arwain a rheoli lleoliadau gofal plant. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall dulliau damcaniaethol o arwain, rheoli, arloesi a newid

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Damcaniaethau, modelau ac arddulliau o:
- Arwain
- Rheoli
- Arloesi a rheoli newid

1.2 Diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth foesegol

## Deilliant dysgu:

2. Deall sut y dylid defnyddio hunanasesiad o'r gwasanaeth a gwerthusiad i gefnogi gwelliant parhaus

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i fesur canlyniadau gwella gwasanaeth

2.2 Sut i nodi meysydd i'w gwella yn y gweithle/lleoliad

2.3 Sut i wneud “yr hyn sy'n bwysig” yn annatod i blant a'u teuluoedd/gofalwyr wrth wella gwasanaethau

2.4 Sut mae adborth cadarnhaol yn gallu cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau i blant a theuluoedd/gofalwyr

2.5 Sut mae pryderon a chanmoliaeth yn gallu cael eu defnyddio er mwyn gwella ymarfer yn y gweithle/lleoliad

## Deilliant dysgu:

3. Deall sut i reoli arloesi a newid

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Manteision arloesi a newid

3.2 Heriau i arloesi a newid a ffyrdd o ymateb i'r rhain

3.3 Sut i ddefnyddio dull partneriaeth ar gyfer arloesi a newid

# Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Anogir dysgwyr i fyfyrio ar eu gweithle/lleoliad gwaith eu hunain a chyfeirio ato yn ystod y broses o gyflwyno cynnwys yr uned hon.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Cyflwyniad i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau arwain, rheoli, newid ac arloesi |
| 1.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Ystyr y termau canlynol: arwain; rheoli ac arloesi, a rheoli newid<br>• Damcaniaethau arwain<br>• Arddulliau arwain<br>• Damcaniaethau ac adnoddau ar gyfer rheoli newid – i gynnwys arloesi<br>• Modelau rheoli rhaglenni a phrojectau |
| | **Canllawiau cyflwyno**<br>Dylid defnyddio damcaniaethau a modelau i roi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| 1.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth foesegol<br>• Rôl arweinwyr a rheolwyr wrth arwain gwaith arloesi a newid |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Rydych yn deall y broses barhaus o wella gwasanaeth a sut dylai adborth ddylanwadu ar hyn |
| 2.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Cylch hunanasesu – Pwysigrwydd nodi a chydnabod yn gyson ymarfer dyddiol parhaus er mwyn gwella canlyniadau i blant |
| | **Canllawiau cyflwyno**<br>Gwerthfawrogi a defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth |
| 2.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Canllawiau hunanasesu, AGC, Estyn ac AGIC |
| 2.5 | **Canllawiau cyflwyno** |

| | |
|---|---|
| | Dylai pryderon ymdrin ag amrywiaeth o bryderon sy'n berthnasol i leoliadau gofal plant, er enghraifft:<br>Dadansoddi damweiniau, digwyddiadau, gwybodaeth a dderbynnir |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>• Sut i reoli arloesedd a newid<br>• Pam y gall staff/teuluoedd/gofalwyr ymwrthod ag arloesedd a newid<br>• Dulliau damcaniaethol ac ymarferol o arwain arloesedd a newid<br>• Gweithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli arloesedd a newid<br>• Sut gellir defnyddio dulliau rheoli projectau er mwyn rheoli newid. |
| 3.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Damcaniaethau ar ymwrthod â newid<br>• Modelau newid fesul cam<br>• 'Pum rheswm pam' dros brosesau newid |
| | Adnoddau:<br>Acas: Sut i reoli newid<br>**http://www.acas.org.uk/media/pdf/q/q/Acas-How-to-manage-change-advisory-booklet.pdf**<br>Adnoddau Dysgu Academi Wales<br>**https://academiwales.gov.wales/Repository/tree?sort=recommendation&language=cy** |

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDLMC A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu
- **SCDLMC A2:** Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A3:** Mynd ati i ddewis a recriwtio gweithwyr mewn modd diogel a'u cadw yn y gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A5:** Rheoli dyraniad, cynnydd a chydraddoldeb gwaith mewn darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E2:** Arwain y broses o reoli perfformiad darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E10:** Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- www.nice.org.uk/guidance
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015
- Polisi a Chanllawiau Gweithio ar eich Pen eich Hun 2010

# Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 100 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol; gan gynnwys pwysigrwydd prosesau recriwtio a sefydlu yn seiliedig ar werthoedd. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng nghyd-destun datblygu'r gweithlu

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i ddefnyddio dulliau er mwyn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth arwain a rheoli gweithwyr

## Deilliant dysgu:

2. Deall pwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun datblygu'r gweithlu

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Dulliau ar gyfer archwilio'r gweithlu presennol mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg

2.2 Dulliau o gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gweithlu

2.3 Dulliau o sicrhau bod y gweithlu yn deall pwysigrwydd hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad

## Deilliant dysgu:

3. Deall dulliau, sgiliau a phriodweddau ar gyfer arwain a rheoli timau'n effeithiol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Gwerthoedd ac ymddygiadau arwain craidd

3.2 Y gwahaniaethau rhwng arwain a rheoli mewn timau
3.3 Pwerau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr
3.4 Gwybodaeth emosiynol a rheoli perthnasoedd
3.5 Sut i ysgogi staff

---

Deilliant dysgu:

4. Deall pwrpas a gofynion prosesau recriwtio a sefydlu gweithwyr sy'n seiliedig ar werthoedd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd
4.2 Sefydlu
4.3 Cyfnod prawf

---

Deilliant dysgu:

5. Gwybod sut i gefnogi perfformiad tîm effeithiol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Y broses o ddirprwyo tasgau a'u llywodraethu
5.2 Damcaniaeth rhyngddibyniaeth gymdeithasol a gwaith tîm
5.3 Pennu amcanion/nodau a chytuno arnynt
5.4 Amcanion a rennir a dealltwriaeth o nodau'r tîm
5.5 Sicrhau bod dealltwriaeth o rolau unigol o fewn y tîm

---

Deilliant dysgu:

6. Gwybod sut i reoli gwrthdaro a pherfformiad gwael mewn tîm

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i ddelio â pherfformiad/cymhwysedd gwael
6.2 Sut i reoli sgyrsiau cadarnhaol
6.3 Dulliau o reoli a datrys gwrthdaro

---

Deilliant dysgu:

7. Deall goruchwylio ac arfarnu

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Pwrpas a manteision goruchwylio

7.2 Sut i oruchwylio ac arfarnu'n effeithiol

7.3 Pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff

---

### Deilliant dysgu:

8. Gwybod sut i ddefnyddio hyfforddiant, mentora a chyfweliadau cymhellol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Sut i ddefnyddio hyfforddiant, mentora a chyfweliadau cymhellol i gefnogi newid

# Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Anogir dysgwyr i fyfyrio ar eu gweithle/lleoliad gwaith eu hunain a chyfeirio ato yn ystod y broses o gyflwyno cynnwys yr uned hon.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Deall cyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth |
| 1.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Deddf Cydraddoldeb (2010) a'i chymhwyso mewn lleoliad gwaith<br>• Cyfleoedd Cyfartal |
| Adnoddau | • **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed**<br>• Acas: Tudalennau gwe ar gydraddoldeb a gwahaniaethu **http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1363**<br>• Acas: Tudalennau gwe ar hawliau a chyfrifoldebau **http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=4663** |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Pam mae'n bwysig bod â dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg staff<br>• Deall gofynion Safonau'r Gymraeg a'r gofynion ar leoliadau<br>• Deall pam mae'r Gymraeg yn hanfodol i ofal plentyn-ganolog |
| 2.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant<br>• Sgiliau Cymraeg staff<br>• Sut i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gweithle/lleoliad<br>• Mesur y Gymraeg (2011) a'i chymhwyso mewn lleoliad gwaith<br>• Safonau'r Gymraeg 2016) |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>• Datblygu dealltwriaeth o ddulliau arwain a rheoli ar y cyd sy'n seiliedig ar werthoedd<br>• Dealltwriaeth o ddamcaniaethau a fframweithiau sy'n helpu i ddatblygu rhinweddau arwain a pherthnasoedd cadarnhaol yn y gweithle |
| 3.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>- Ymddygiadau arwain a gwerthoedd craidd a ddylai lywio ymarfer |

| | |
|---|---|
| | **Adnoddau:**<br>Gofal Cymdeithasol Cymru: Blwyddyn Gyntaf fel Rheolwr<br>Yr Academi Sgiliau Cenedlaethol: Y Fframwaith Rhinweddau Arwain **https://www.skillsforcare.org.uk/Documents/Leadership-and-management/Leadership-Qualities-Framework/Leadership-Qualities-Framework.pdf**<br>Adnoddau Academi Wales (https://academiwales.gov.wales/Repository) |
| 3.3 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Y cysylltiadau rhwng ymddygiadau arwain a gwerthoedd craidd a diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth foesegol<br>• Pwerau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr |
| 3.4 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Damcaniaethau a Fframweithiau ar gyfer deallusrwydd Emosiynol<br>• Damcaniaethau a Fframweithiau ar gyfer rheoli perthnasoedd |
| 3.5 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Damcaniaethau cymhelliant a sut i'w cymhwyso er mwyn cefnogi perfformiad tîm effeithiol |
| DD4 | **Amcanion thema**:<br>• Dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd yn hanfodol ac adnoddau a all gefnogi hyn<br>• Dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer recriwtio a sefydlu gweithwyr<br>• Dealltwriaeth bod recriwtio a sefydlu yn rhan o un broses |
| 4.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>- Recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd<br>- Rheoleiddio gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd<br>- Cyfnodau prawf<br><br>**Adnoddau:**<br>- Pecyn cymorth recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd Sgiliau Gofal **https://www.skillsforcare.org.uk/Recruitment-retention/Values-based-recruitment-and-retention/Values-based-recruitment-and-retention.aspx** |
| 4.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Pwrpas sefydlu<br>• Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant<br>• Gofynion rheoleiddio ar gyfer sefydlu gweithwyr ym maes y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. |

| | |
|---|---|
| | **Adnoddau**<br>Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant:<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant |
| DD5 | **Amcanion thema:**<br>• Deall sut i reoli tîm a hybu perfformiad effeithiol |
| 5.3 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Pwysigrwydd monitro a mesur nodau a gyflawnwyd<br>• Pennu amcanion/nodau a chytuno arnynt<br>• Egluro rolau a chyfrifoldebau pawb dan sylw |
| 5.4 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Manteision gwaith tîm/cydweithio i gyflawni nodau<br>• Damcaniaethau rhyngddibyniaeth<br>• Tuckman (1961) Forming, storming, norming, performing<br>• Belbin (2010) Team role contributions |
| DD6 | **Amcanion thema**<br>• Deall pam a phryd mae angen ymyrryd er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad neu wrthdaro o fewn timau a dulliau a strategaethau y gellir eu defnyddio i wneud hyn |
| 6.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• **Achosion perfformiad effeithiol**<br>• **Perfformiad da**<br>• **Mesur perfformiad**<br>• **Dulliau o asesu perfformiad gwael, gan gynnwys**<br>- Gwella cymhelliant<br>- Pennu nodau neu amcanion perfformiad clir<br>- Rhoi adborth clir<br>- Gwobrwyo perfformiad cadarnhaol a gwelliant<br>- Darparu hyfforddiant/cefnogaeth ychwanegol<br>- Camau i'w cymryd pan nad yw perfformiad yn gwella<br><br>**Adnoddau**<br>Acas: Tudalennau gwe ar reoli perfformiad<br>**http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=6608** |
| 6.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Pam a phryd y gall fod angen cynnal sgyrsiau anodd<br>• Gwybodaeth emosiynol, dadansoddi rhyngweithredol a rheoli perthnasoedd<br>• Paratoi ar gyfer sgyrsiau anodd<br>• Dulliau cyfathrebu ar gyfer sgyrsiau anodd<br><br>**Adnoddau** |

| | |
|---|---|
| | Acas: Challenging Conversations and how to manage them **http://www.acas.org.uk/media/pdf/f/b/Challenging-conversations-and-how-to-manage-them.pdf** |
| 6.3 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Arwyddion gwrthdaro<br>• Achosion gwrthdaro<br>• Strategaethau i reoli gwrthdaro, gan gynnwys cyfryngu<br>• Deallusrwydd emosiynol, dadansoddi rhyngweithredol a rheoli perthnasoedd<br>• Cael cefnogaeth ychwanegol<br><br>**Adnoddau**<br>Acas: Tudalennau gwe ar anghydfodau a gwrthdaro yn y gweithle **http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1662** |
| DD7 | **Amcanion thema**<br>Deall pwysigrwydd goruchwylio ac arfarnu er mwyn sicrhau perfformiad tîm effeithiol |
| 7.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Y gwahaniaeth rhwng goruchwylio ac arfarnu<br>• Pwrpas a manteision goruchwylio |
| 7.2 | Testunau y dylid ymdrin â nhw:<br>• Arferion da wrth oruchwylio ac arfarnu, gan gynnwys<br>- Amgylchedd addas<br>- Neilltuo digon o amser<br>- Paratoi<br>- Proses ddwyffordd rhwng y goruchwyliwr a'r sawl sy'n cael ei oruchwylio<br>- Cyfathrebu effeithiol<br>- Sgyrsiau agored a gonest<br>- Cyfrinachedd<br>- Cytuno ar gamau gweithredu ac amcanion perfformiad<br>- Cofnodi adborth<br>- Adborth i gwmpasu systemau arfarnu 180 a 360<br>- Cynnwys iechyd a llesiant a datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â pherfformiad<br><br>**Adnoddau**<br>Goruchwylio'n Dda (Gofal Cymdeithasol Cymru) |
| DD8 | **Amcanion thema:**<br>- Cyflwyniad i hyfforddiant, mentora/cyfweliadau cymhellol fel ffyrdd o gefnogi newid |
| 8.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:** |

| | |
|---|---|
| | • Elfennau hyfforddiant, mentora a chyfweliadau cymhellol a diffiniadau ohonynt<br>• Defnyddio modelau cyfredol a diweddar i gefnogi newid<br>• Ffactorau sy'n ysgogi newid gan gynnwys newid arfaethedig a newid ymatebol<br>• Dysgu gweithredol |

## *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig*

- **SCDLMC A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu
- **SCDLMC A2:** Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A3:** Mynd ati i ddewis a recriwtio gweithwyr mewn modd diogel a'u cadw yn y gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A5:** Rheoli dyraniad, cynnydd a chydraddoldeb gwaith mewn darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E2:** Arwain y broses o reoli perfformiad darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E10:** Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- www.nice.org.uk/guidance
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015
- Polisi a Chanllawiau Gweithio ar eich Pen eich Hun 2010
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: **https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**

# Atodiad 1 Cysylltiadau â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer